IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD LLUN, 30 MEDI 2019

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 30 MEDI 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

A Hussain RM James JE Lewis JR McCarthy
G Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies a/ac B Jones

Swyddogion:

Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Andrea Lee	Uwch Cyfreithiwr
Yvonne Witchell	Rheolydd Tîm Trwyddedu

168. ETHOL CADEIRYDD

Roedd yn ofynnol i aelodau ethol Cadeirydd oherwydd absenoldeb y Cynghorydd Pam Davies (Cadeirydd). Etholodd yr Aelodau y Cynghorydd RM James

169. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyng. G Thomas ddiddordeb anfanteisiol yn eitem 4, Cais i Drwyddedu Cerbyd Cludo Hacni, a gadawodd y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei hystyried am ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

170. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD CLUDO HACNI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd cludo hacni.

Gwnaethpwyd y cais gan Mr Christopher Jenkins i drwyddedu cerbyd Ford Tourneo rhif cofrestru BV65 VZP fel cerbyd cludo hacni i gludo 8 unigolyn. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd â'r DVLA ar 19 Tachwedd 2015.

Nododd Rheolwr y Tîm Trwyddedu nad oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Cludo Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn.

Er gwybodaeth i'r Aelodau, darparwyd hanes gwasanaeth wedi'i ddyddio 4 Gorffennaf 2017, gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi fel 29613, 21 Mai 2018 gyda milltiroedd fel 46721 a 11 Mehefin 2019 gyda milltiroedd fel 52198. Darparwyd Tystysgrifau Prawf MOT ar gyfer 6 Gorffennaf 2017 gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi fel 29747, 12 Mehefin 2018 gyda milltiroedd fel 49115 a 28 Mehefin 2019 gyda milltiroedd fel 55199. Milltiroedd presennol y cerbyd oedd 57,279 milltir.

Bu i Reolwr y Tîm Trwyddedu gyfeirio'r Is-bwyllgor at y detholiad perthnasol o'r polisi cerbyd sy'n berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i drwyddedu'r cerbyd â'r rhif cofrestru BV65 VZP fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr aelodau bod y cais yn mynd y tu hwnt i ganllawiau'r polisi yn sgil oedran y cerbyd.

Nododd yr aelodau hefyd bod y Polisi ym mharagraff 4.4 yn caniatáu i'r rheol gael ei llacio mewn amgylchiadau eithriadol, fel sydd wedi'u manylu yn yr adroddiad.

Wedi archwilio'r cerbyd, barn yr Is-Bwyllgor oedd bod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd a'i rinweddau diogelwch, ac felly bu iddynt ganiatáu'r drwydded.

171. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD CLUDO HACNI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd cludo hacni.

Gwnaethpwyd y cais gan Mr Karl Svensen i drwyddedu cerbyd Ford Transit Custom rhif cofrestru LN66 NYZ fel cerbyd cludo hacni i gludo 8 unigolyn. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd â'r DVLA ym mis Medi 2016. Roedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Cludo Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Darparwyd hanes gwasanaeth â'r dyddiad 6 Medi 2019, gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi fel 56180 a darparwyd Tystysgrif Prawf MOT â'r dyddiad 6 Medi 2019 gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi fel 56181. Milltiroedd presennol y cerbyd oedd 56,530.

Bu i Reolwr y Tîm Trwyddedu gyfeirio'r Is-Bwyllgor at y detholiad perthnasol o'r polisi cerbyd sy'n berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i drwyddedu'r cerbyd â'r rhif cofrestru LN66 NYZ fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr aelodau bod y cais yn mynd y tu hwnt i ganllawiau'r polisi yn sgil oedran y cerbyd.

Nododd yr aelodau bod y Polisi ym mharagraff 4.4 yn caniatáu i'r rheol gael ei llacio mewn amgylchiadau eithriadol, fel sydd wedi'u manylu yn y polisi.

Wedi iddo archwilio'r cerbyd, nododd yr Is-Bwyllgor bod niwed sylweddol i un o'r panelau ac felly gwrthodwyd y drwydded.

172. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded i gerbyd hurio preifat.

Gwnaethpwyd y cais gan Forge Travel Limited i drwyddedu cerbyd Mercedes Vitoc â'r rhif cofrestru KV18 WPT fel cerbyd hurio preifat i gludo 8 unigolyn. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd â'r DVLA ar 29 Mawrth 2018. Nid oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Darparwyd hanes gwasanaeth y cerbyd â'r dyddiad 22 Gorffennaf 2019, gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi fel 36093. Milltiroedd presennol y cerbyd oedd 36,488.

Bu i Reolwr y Tîm Trwyddedu gyfeirio'r Is-Bwyllgor at y detholiad perthnasol o'r polisi cerbyd sy'n berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i drwyddedu'r cerbyd â'r Rhif Cofrestru KV18 WPT fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr aelodau bod y cais yn mynd y tu hwnt i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd yr aelodau hefyd bod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu i'r rheol gael ei llacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u manylu ym mharagraff 2.4 y Polisi.

Wedi archwilio'r cerbyd, barn yr Is-Bwyllgor oedd bod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd y tu mewn yn ogystal â'r tu allan, a'i rinweddau diogelwch. Felly, rhoddodd yr Is-Bwyllgor ganiatâd i drwyddedu'r cerbyd.

173. EITEMAU BRYS

Dim

174. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mai dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiedig gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod trafodaeth o'r eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a/neu Baragraff 21 Rhan 5 Amserlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn y prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, mai yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrir mai ym mhob amgylchiad mewn perthynas â'r eitemau, roedd budd y cyhoedd i gynnal y gwaharddiad yn gorbwyso budd y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr dan sylw.

175. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

176. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

177. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

178. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

179. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 14:00